COFNODION CYFARFOD O FWRDD TWF CANOLBARTH CYMRU A GYNHALIWYD DRWY SKYPE DDYDD LLUN, 11 MAI, 2020

YN BRESENNOL

Aelodau Cabinet Cyngor Sir Ceredigion:

Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion ac Aelod Cabinet dros Berfformiad Polisi, Partneriaethau a Gwasanaethau Democrataidd **(EAG)**

Y Cynghorydd Dafydd Edwards: Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghyd â Thai **(DE)**

Y Cynghorydd Catrin Miles: Aelod Cabinet dros Wasanaethau Dysgu a Dysgu Gydol Oes **(CM)**

Y Cynghorydd Rhodri Evans: Aelod Cabinet dros yr Economi ac Adfywio **(AG)**

Y Cynghorydd Gareth Lloyd, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyllid a Chaffael a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd **(GL)**

Aelodau Cabinet Cyngor Sir Powys:

Y Cynghorydd Rosemarie Harris, Arweinydd Cyngor Sir Powys (Cadeirydd) **(RH)**

Y Cynghorydd Aled Davies, Aelod Portffolio dros faterion Cyllid, Cefn Gwlad a Thrafnidiaeth **(AD)**

Y Cynghorydd Phyl Davies, Aelod Portffolio dros faterion Addysg ac Eiddo **(PD)**

Y Cynghorydd James Evans, Aelod Portffolio dros faterion Datblygu Economaidd, Tai a Gwasanaethau Rheoleiddio **(JE)**

Y Cynghorydd Heulwen Hulme, Aelod Portffolio dros faterion yr Amgylchedd **(HH)**

Fiona Stewart, Cadeirydd y Grŵp Strategaeth Economaidd **(FS)**

Swyddogion:

Eifion Evans, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ceredigion **(EE)**

Caroline Turner, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Powys **(CT)**

Nigel Brinn, Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd, Cyngor Sir Powys **(DS)**

Clive Pinney, Cyfreithiwr i'r Cyngor, Cyngor Sir Powys **(CP)**

Carwyn Jones-Evans, Rheolwr Gwasanaeth Twf a Datblygiadau Mawr, Cyngor Sir Ceredigion **(CJE)**

Russell Hughes-Pickering, Prif Swyddog Corfforaethol: Yr Economi ac Adfywio, Cyngor Sir Ceredigion **(RHP)**

1.	**CROESO AC YMDDIHEURIADAU / WELCOME AND APOLOGIES**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Arwyn Davies, Rheolwr Corfforaethol Cyngor Sir Ceredigion.

2.	**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL / DECLARATIONS OF PERSONAL INTEREST**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3.	COFNODION

3.1. **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting 20/11/19**

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod diwethaf y Bwrdd Cysgodol a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2019 yn gofnod cywir.

3.2. **Cofnodion Sesiwn Cabinet ar y Cyd ar y Ddogfen Gynnig / Minutes of the Joint Cabinet Session on the Proposition Document 21/02/20**

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod y Cabinet ar y Cyd a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2020 yn gofnod cywir.

4.	DOGFEN GYNNIG: GWELEDIGAETH AR GYFER TYFU CANOLBARTH CYMRU CYNLLUN ECONOMAIDD STRATEGOL A CHYNLLUN Y FARGEN DWF / PROPOSITION DOCUMENT: A VISION FOR GROWING MID WALES STRATEGIC ECONOMIC PLAN & GROWTH DEAL ROADMAP

Esboniodd CJE fod y ddogfen gynnig wedi'i diweddaru ychydig ers iddi gael ei hystyried gan y Grŵp Strategaeth Economaidd (ESG) ar 9 Mawrth i adlewyrchu pandemig Covid-19. Teimlai'n hyderus, er gwaethaf y pandemig, fod y ddogfen yn dal i fod yn ddilys fel llinell sylfaen i economi Canolbarth Cymru. Roedd yn amlinellu blaenoriaethau strategol clir y ddau gyngor i ysgogi newid cadarnhaol, tymor hir a chynaliadwy a fyddai'n sbarduno ymdrechion i sicrhau adferiad ac yn hyrwyddo twf yn y dyfodol.

Roedd y ddogfen wedi'i hanelu at y lefel strategol yn fwriadol o ran llunio'r Fargen Twf, yn unol â thrafodaethau blaenorol gyda'r ddwy Lywodraeth am ei datblygu yn gyson ac yn raddol. Byddai hynny'n sicrhau bod y sylfaen dystiolaeth yn iawn, yn rhoi'r trefniadau llywodraethu a gweithio cywir ar waith ac yn sicrhau bod yna weledigaeth a dealltwriaeth glir o'r gofynion yn rhanbarth Canolbarth Cymru. Yr adborth anffurfiol a gafwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru oedd bod y ddogfen wedi'i hanelu yn gywir a bod cyllid ar gael ar gyfer y Fargen Twf er gwaetha'r pandemig. Wrth ymateb i gwestiynau am y dull a gymerir, eglurodd CJE fod Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu o Fargeinion Twf Bae Abertawe a Gogledd Cymru.

Gofynnodd FS pa brosiectau oedd wedi'u nodi a dywedodd CJE, er y bu rhai trafodaethau anffurfiol, na fyddai trafodaethau ffurfiol yn dechrau nes bod y ddogfen gynnig wedi'i chyflwyno. Roedd RH yn awyddus i drafod pa brosiectau a fyddai'n cael eu cefnogi cyn gynted ag y byddai'r ddogfen gynnig wedi'i llofnodi. Nododd EAG y gallai hyn gael ei godi yng nghyfarfod yr Arweinwyr gyda'r Gweinidog dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru yn ddiweddarach yn yr wythnos. Dymunai JE weld cyfathrebu mwy rhagweithiol i annog prosiectau i gael eu cyflwyno.

Cytunwyd i gymeradwyo'r ddogfen gynnig "Gweledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru" ar ffurf ddrafft derfynol a chytuno i'w chyflwyno i'r ddwy Lywodraeth i roi cychwyn ar drafodaethau ffurfiol.

5.	**ADNODDAU: ARIAN REFENIW LLYWODRAETH CYMRU / RESOURCING: WELSH GOVERNMENT REVENUE FUNDING**

Cafwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru bod £45k o gyllid wedi'i ddyfarnu ar gyfer 2019/20 a £95k ar gyfer 2020/21. Byddai angen i'r cyllid hwn gael ei gyfateb gan y ddau Gyngor, a byddai angen i'r ddau Gyngor ymrwymo £50k yr un gyda phenderfyniad i gael ei wneud cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd. Dywedodd CT fod Cyngor Sir Powys wedi gwneud darpariaeth yn ei gyllideb. Byddai hi ac EE yn drafftio papur i'w ystyried gan y ddau Gabinet. Byddai CJE yn mapio'r tasgau allweddol ac yn dod ag adroddiad pellach ar ddyrannu adnoddau i'r cyfarfod nesaf.

Gofynnodd RH pryd y byddai penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a fyddai cyllid o £2m yn cael ei ddyfarnu. Dywedodd CJE ei bod yn ofynnol iddo gyflwyno cynllun busnes llawn. Byddai angen penderfyniad erbyn mis Gorffennaf fan bellaf.

Cyfeiriodd FS a PD at rwystredigaeth gynyddol gan fusnesau a oedd am weld cynnydd yn cael ei wneud ynghylch y Fargen Twf. Nododd EAG fod y cynnydd yn dibynnu ar Lywodraethau'r DU a Chymru, oedd yn darparu'r cyllid. Roedd hi a RH i fod i gwrdd â Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru a byddent yn gallu rhoi diweddariad ar ôl y cyfarfod hwnnw.

6.	**DIWEDDARIAD LLYWODRAETHU AR LAFAR / GOVERNANCE UPDATE VERBAL**

6.1. **Cytundeb Rhyng-Awdurdod / Inter-Authority Agreement**

Nid oedd unrhyw beth i'w ychwanegu.

6.2. **Trefniadau Craffu Rhanbarthol / Regional Scrutiny Arrangements**

Byddai Cyd-bwyllgor Craffu yn cynnwys 7 aelod o bob awdurdod yn cael ei sefydlu cyn gynted â phosibl.

6.3. **Grwp Strategaeth Economaidd / Economic Strategy Group**

Roedd FS yn awyddus i'r Grŵp Strategaeth Economaidd ddechrau edrych ar brosiectau ond dywedwyd wrthi na fyddai trafodaethau â busnesau yn dechrau o ddifrif nes bod y ddogfen gynnig wedi'i chymeradwyo. Yn y cyfamser, byddai CJE yn ei diweddaru ynghylch y trafodaethau anffurfiol a oedd wedi bod yn digwydd y tu allan i'r cyfarfod.

Soniodd FS hefyd am sefyllfa busnesau yn y pandemig presennol. Roedd y timau Datblygu Economaidd yn y ddau gyngor yn gweithio i helpu busnesau i gael mynediad at grantiau'r llywodraeth ac roeddent yn dechrau cynllunio ar gyfer y cyfnod adfer. Roedd Rhodri Griffiths yn Llywodraeth Cymru wedi cynnig cynorthwyo. Dywedodd RH ei bod hi wedi gofyn am gyfarfod o Fforwm Gwledig CLlLC (WLGA) gyda Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

Cytunwyd y dylid gofyn i swyddogion baratoi papur ar gyfer Fforwm Gwledig CLlLC (WLGA) ar effaith y pandemig ar fusnesau gwledig.

6.4. **Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol / Regional Learning & Skills Partnership**

Rhoddodd EE adroddiad am gyfarfod a gynhaliwyd yr wythnos flaenorol gyda Rhodri Griffiths a Huw Morris o Lywodraeth Cymru a oedd wedi edrych ar sut y gallai'r Fargen Twf gael ei chysoni â dysgu a sgiliau. Gwnaed ymrwymiad pellach i roi cyllid, ond nid oedd llythyr yn nodi manylion, oedd wedi'i addo, wedi ei dderbyn eto. Dywedodd EAG y byddai'n codi'r mater gyda Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru.

7.	**UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS**

Dim

8.	**DYDDIADAU CYFARFODYDD / DATES OF FUTURE MEETINGS**

Nodwyd.

Y Cynghorydd Sir Ellen ap Gwynn
Cadeirydd